GIG

Sefydliad Cenedlaethol
dros Ragoriaeth Glinigol

# Mân-greuandoriad uwchgreuol i drin aniwryswm mewngreuanol

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Awst 2004

Gwybodaeth o Arweiniad Ymyriadau 84

**Mân-greuandoriad uwchgreuol i drin aniwryswm mewngreuanol**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Awst 2004

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch rif cyfeirnod N0676.
Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0675.
Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau hefyd o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0674.


## Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-742-5

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Awst 2004
Gosodwyd y Testun gan Icon Design, Eton
Argraffwyd gan Abba Litho Sales Limited, Llundain


© Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Awst 2004 . Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r wybodaeth hon | 4 |
| Ynglŷn â mân-greuandoriad uwchgreuol i drin aniwrysŵm mewngreuanol | 5 |
| Beth y mae NICE wedi'i benderfynu? | 8 |
| Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi | 9 |
| Gwybodaeth bellach | 10 |

# Ynglŷn â’r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddosbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn fân-greuandoriad uwchgreuol. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar p’un a yw mân-greuandoriad uwchgreuol yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio’n rheolaidd i drin aniwryswmau mewngreuanol.

Er mwyn llunio’r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau ar ddiogelwch y weithdrefn mân-greuandoriad uwchgreuol a pha mor dda y mae’n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy’n cynrychioli gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a’r cleifion a’r gofalwyr y bydd yr arweiniad hwn yn effeithio arnynt.

Mae’r arweiniad hwn yn rhan o’r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar ‘ymyriadau’ (gweler ‘Gwybodaeth bellach’ ar dudalen 10).

# Ynglŷn â mân-greuandoriad uwchgreuol i drin aniwrysŵm mewngreuanol

Aniwrysŵm yw'r enw meddygol am yr hyn sy'n digwydd pan fydd adran o bibell waed yn dechrau chwyddo fel balŵn. Mae aniwrysŵm mewngreuanol yn un sy'n digwydd y tu mewn i'r benglog. Yn achlysurol, bydd aniwrysŵmau yn bostio ac yn gwaedu i mewn i'r ardal o amgylch.

Mae'r llawdriniaeth safonol i drin y rhan fwyaf o aniwrysŵmau mewngreuanol yn golygu gwneud agoriad bach yn ochr y benglog (ychydig o flaen y glust) er mwyn i'r llawfeddyg allu cyrraedd y bibell waed sy'n cynnwys yr aniwrysŵm. Rhoddir clip ar draws 'gwddf' yr adran chwyddedig o'r bibell waed er mwyn cau'r rhan chwyddedig. Golyga hyn y gall gwaed barhau i lifo drwy'r bibell waed ond na fydd yn cronni yn yr aniwrysŵm. Weithiau, os nad yw'n bosibl clipio'r aniwrysŵm, efallai y bydd y llawfeddyg yn ei lapio mewn deunydd artiffisial i geisio'i atal rhag bostio.

Yn y weithdrefn fwyaf newydd yr edrychodd NICE arni a elwir yn fân-greuandoriad uwchgreuol, gwneir agoriad llai o faint yn y benglog. Gwneir hyn uwchlaw'r ael, sy'n golygu y gall y llawfeddyg weithio ar y bibell waed o leoliad yn syth o'i blaen yn hytrach nag o'r ochr. Yna caiff yr aniwrysŵm naill ai ei glipio neu ei lapio, fel y disgrifiwyd ar gyfer y llawdriniaeth safonol.

## Pa mor dda y mae'n gweithio

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Cafodd pob aniwryswm ei glipio neu ei lapio'n llwyddiannus mewn dwy astudiaeth yr edrychodd NICE arnynt. Ond ni ddywedodd yr un o'r adroddiadau ar yr astudiaethau hyn sawl mis ar ôl cael y weithdrefn yr archwiliwyd y cleifion, felly nid oedd yn bosibl gweld am ba mor hir y parodd effeithiau'r weithdrefn.

Mewn astudiaeth arall, ymddangosai fel pe bai 33 o blith 37 o gleifion wedi gwella ar ôl cael y weithdrefn. Ond nid oedd yn glir faint o gleifion a archwiliwyd yn rheolaidd am gyfnod cyfan yr astudiaeth (sef 17 mis). Nododd yr astudiaeth hon hefyd nad oedd gan y cleifion lawer o greithiau ar ôl cael y weithdrefn.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd un o'r arbenigwyr nad oedd yr agoriad llai o faint yn y weithdrefn fwy newydd yn debygol o wneud llawer o wahaniaeth i lwyddiant y weithdrefn.

## Risgiau a phroblemau posibl

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Daeth NICE o hyd i dair astudiaeth a ddilynodd yr hyn a ddigwyddodd i gleifion a gafodd y weithdrefn fwy newydd. Edrychodd un ohonynt ar 139 o gleifion, yr ail ar 102 o gleifion a'r drydedd ar 37 o gleifion. Ym mhob un o'r astudiaethau hyn, bostiodd yr aniwryswm yn ystod y weithdrefn yn achos hyd at 3% o gleifion (mae 3% yn cyfateb â 3 o blith 100 o bobl).

Roedd canlyniadau eraill o'r astudiaeth a edrychodd ar 102 o gleifion yn cynnwys:

- bu farw pedwar o bobl o fewn 8 diwrnod o gael y weithdrefn
- cafodd dau berson haint yn eu system nerfol ganolog (sef yr ymennydd, llinyn y cefn a'r nerfau sy'n dod ohonynt)
- profodd saith person broblem gyda hylif yn cronni yn eu system nerfol ganolog ac roedd angen iddynt gael mwy o lawdriniaeth i ymdrin â hyn.

Yn yr astudiaeth a edrychodd ar 37 o gleifion, niweidiwyd nerf uwchlaw'r llygad yn ystod y weithdrefn yn achos pedwar claf. A chafodd un person haint yn y man lle yr agorwyd y croen.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Credai'r arbenigwyr nad oedd unrhyw broblemau diogelwch difrifol gyda'r weithdrefn fwy newydd.

## Beth y mae NICE wedi ei benderfynu?

Mae NICE wedi ystyried y dystiolaeth ar fân-greuandoriad uwchgreuol. Mae wedi argymell pan fydd meddygon yn ei ddefnyddio i drin pobl sy'n dioddef o aniwrysm mewngreuanol, y dylent sicrhau:

- bod y claf yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu ac yn cytuno (rhoi caniatâd) i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r weithdrefn eu monitro.

### Sylwadau eraill gan NICE

Mae NICE wedi nodi, er ei bod yn ymddangos fel pe bai mwy o bosibilrwydd y bydd yr aniwrysm yn bostio yn ystod y weithdrefn fwy newydd, fel rheol gall y llawfeddyg ymdrin â hyn pan fydd yn digwydd.

Dywedodd NICE hefyd fod llawfeddygon yn amlach na pheidio erbyn hyn yn defnyddio mathau gwahanol o weithdrefnau i drin aniwryswmau. Gelwir y gweithdrefnau hyn yn weithdrefnau endolwminaidd ac maent yn golygu defnyddio offer llawfeddygol arbennig a all ffitio y tu mewn i'r bibell waed.

## Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai fod eich meddyg wedi cynnig mân-greuandoriad uwchgreuol i chi. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod y weithdrefn yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da iddi gael ei defnyddio yn y GIG. Er hynny, dylech ddeall manteision a risgiau mân-greuandoriad uwchgreuol cyn i chi gytuno i'r weithdrefn. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai fod rhai o'r rhain wedi'u disgrifio uchod.

# Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar fân-greuandoriad uwchgreuol i drin aniwryswm mewngreuanol ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG084guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0674. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Dyddiad: Awst 2004